# JONES, JOHN (1645 - 1709), canghellor eglwys gadeiriol Llandaf

**Enw:** John Jones
**Dyddiad geni:** 1645
**Dyddiad marw:** 1709
**Priod:** Mary Jones (née Starkey)
**Rhiant:** Matthew Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** canghellor eglwys gadeiriol Llandaf
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Thomas Iorwerth Ellis

mab (neu yr) Matthew Jones, Pentyrch, Morgannwg. Bu'n ysgolor ac yn gymrawd o Goleg Iesu, Rhydychen, gan gymryd ei B.A. yn 1666, M.A. yn 1670, B.C.L. yn 1673, a D.C.L. yn 1677. Cafodd drwydded i wneuthur gwaith meddygol yn 1678 a bu wrth ei waith yn Windsor. Derbyniwyd ef i goleg y physygwyr yn 1677, a'i benodi'n ganghellor Llandaf yn 1691. Cyhoeddodd draethawd Lladin ar glefydau yn 1683, ac yn 1700 waith ar ddatguddiad dirgeledigaethau opiwm, a ddisgrifir fel ' peth rhyfedd ac ofnadwy na fedr neb mo'i ddeall.' Dyfeisiodd hefyd gloc 'a symudid gan awyr wedi ei gwasgu'n gyfartal allan o fegin ar ffurf silindr, a'i phlygion yn syrthio wrth ddisgyn yn ôl dull lanternau papur.' Cafodd drwydded 29 Awst 1678 i briodi Mary Starkey o Windsor; bu farw 22 Awst 1709 a'i gladdu ger porth gorllewinol eglwys gadeiriol Llandaf.

## Awdur

**Thomas Iorwerth Ellis**, (1899 - 1970)

## Ffynonellau


Hardy, *Jesus College* (1899)

Foster, *Alumni Oxonienses*

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813–20)

*Oxford Dictionary of National Biography*


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 79093677

Wikidata: Q6242030

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu